Lisa Miller

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Fel Rheolwr y GIG gyda thros 30 mlynedd o brofiad o weithio yn y maes rheoli gweithredol (gan gynnwys un o elusennau'r GIG), ac yn fwy diweddar, yn y meysydd ymgysylltu â chleifion a rheoli gwirfoddolwyr, credaf y gallaf ddod ag amrediad eang o sgiliau i gefnogi gwaith CGGC. Mae gennyf wybodaeth dda am strategaethau cyfredol Cymru a'r DU, ac rwyf wedi gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y trydydd sector a'r sector elusennol, y GIG a mudiadau academaidd. Rwyf wrth fy modd yn gweithio gyda phobl eraill ac yn cydnabod gwerth pobl eraill mewn partneriaethau.

Byddem wrth fy modd yn gweithio'n agosach gydag CGGC i gefnogi'r mudiad, ei Fwrdd, ei aelodau a'i staff. Er nad oes gennyf brofiad uniongyrchol o fod yn Ymddiriedolwr, rwyf wedi ymhél â phobl ar lefel Bwrdd yn y GIG ym mhob un o'm rolau dros y 34 mlynedd ddiwethaf, felly mae gennyf ddealltwriaeth ddofn o sut mae Byrddau yn gweithredu a sut i weithredu o fewn y strwythurau hynny. Rwy'n cydnabod yr heriau ac yn barod i wynebu beth bynnag a ddaw.